


# Iawndal i Sifiliaid yr Effeithir Arnynt gan Wrthdaro Arfog: Angen Dirfawr am Heddwch Cynaliadwy

Adroddiad gan Academi Heddwch Cymru gyda Steve Hollingworth | Medi 2024



## Diffiniad Academi Heddwch Cymru o heddwch

Mae Academi Heddwch Cymru yn deall bod heddwch yn fwy nag absenoldeb rhyfel yn unig. Ystyr heddwch yw byd heb drais neu ofn trais, yn ogystal â'r amodau i atal gwrthdaro fel tegwch a pharch. Mae hefyd yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb; mae'n ymwneud â'r strwythurau a'r prosesau, y cyfreithiau â'r diwylliant sy'n rheoli ein bywydau. Mae'n ymwneud â sut y gallem fyw. Rydym yn tynnu cysylltiad clir rhwng heddwch a lles, ac yn alinio llawer o'n gwaith gyda'r egwyddorion sydd wedi cael eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Pwyntiau Allweddol

·Sifiliaid, bron bob amser, yw prif ddioddefwyr gwrthdaro.

·Mae rhwymedigaeth gyfreithiol a moesegol i ddigolledu sifiliaid am y niwed a wneir iddynt.Mae gan iawndal fantais wleidyddol hefyd o ran galluogi cymdeithasau i adeiladu heddwch cynaliadwy.

·Mae'r fframwaith cyfreithiol rhyngwladol sy'n sail i iawndal sifil yn parhau i fod yn ddiffygiol ac mae iawndal, pan gaiff ei dalu, yn aml yn cael ei drin fel taliad cydymdeimlo yn hytrach na hawl.

·Anhawster allweddol yn y system iawndal yw problem gorfodaeth oherwydd diffyg ewyllys wleidyddol.

·I raddau health, mae'r diffyg ewyllys wleidyddol yn ymgodi o'r naratif bod iawndal yn rhy anodd, yn rhy ddrud, ac y gallai'r anawsterau hyn yn eu tro niweidio'r rhagolygon am gadoediad.

·Yr hyn sydd ei angen yw newid yn y naratif, fel bod iawndal yn cael ei ystyried yn normal yn hytrach nag yn eithriadol, yn bosibl yn hytrach nag yn anodd, a bod taleithiau yn canolbwyntio cymaint ar ariannu'r amodau heddwch ag y maent ar y gallu i fynd i ryfel.

·Gellir gwella'r amddiffyniadau a gynigir gan gyfraith ryngwladol mewn sawl ffordd, ac mae'r ewyllys wleidyddol i orfodi'r rhain wedi cynyddu. Mae gan Gymru gyfle i fod yn ddinesydd rhyngwladol rhagweithiol da drwy ymgymryd â rôl arweiniol mewn ymgyrch i hyrwyddo amlygrwydd iawndal sifil mewn gwrthdaro arfog.

·Byddai hyn yn helpu i godi proffil rhyngwladol Cymru, a datblygu hunaniaeth unigryw ar lwyfan y byd, yn unol â'i Strategaeth Ryngwladol 2020.



# Cefndir

Mae'r Adroddiad hwn yn ymwneud â'r mater o dalu iawndal i sifiliaid y mae gwrthdaro arfog yn effeithio arnynt.  Y bwriad yw codi proffil y mater hwn, ac arwain ar weithredu.Mae'r papur yn nodi meysydd lle gall Llywodraeth Cymru a chymdeithas sifil Cymru gefnogi a bod yn allweddol mewn ysgogi ymdrechion byd-eang, i sicrhau iawndal digonol a chyfiawn, a gosod y sylfeini ar gyfer heddwch cynaliadwy.

Yn ôl moeseg a chyfraith ryngwladol, ystyrir sifiliaid yn bartïon dieuog mewn gwrthdaro arfog, ond maent ymhlith y rhai sy'n dioddef fwyaf. Nid yw iawndal yn cael ei dalu i fynd i'r afael â cholled yn unig; ynghyd â cheisio cyfiawnder a hyrwyddo cymodi, mae'n un o agweddau pwysicaf adeiladu heddwch.

Mae'r Adroddiad hwn yn seiliedig ar ddwy weminar a gynhaliwyd gan Academi Heddwch Cymru (Sefydliad Heddwch Cymru) yn ystod tymor yr haf 2024, a thrafodaethau dilynol rhwng y sawl a gymerodd ran. Cyflwynwyd y gweminarau gan yr Athro Colin McInnes (Arweinydd Ymchwil Academi Heddwch Cymru), a chawsant eu cadeirio gan Steve Hollingworth. Y prif siaradwyr oedd:

- **Yr Athro Elizabeth Salmon Garate, Athro, Pontifical Catholic University of Peru**
- **Dr.Juan-Pablo Perez-Leon-Acevedo, Prifysgol Rhydychen**
- **Yr Athro Mohammed Abu Nimer, American University, Washington DC**
- **Yr Athro Luke Moffett, Queen's University, Belffast**
- **Mojtaba Kazazi, cyn Gyfarwyddwr Gweithredol, Comisiwn Iawndal y Cenhedloedd Unedig**

Gallwch ddod o hyd i recordiadau o'r gweminarau yma.

Mae Academi Heddwch Cymru yn ddiolchgar am gyfraniad pawb sydd wedi cymryd rhan. Mae'n arbennig o ddiolchgar i Steve Hollingworth, ac i Todd Davenport, a weithredodd fel rapporteur.

Ysgrifennwyd yr Adroddiad hwn gan yr Athro Colin McInnes a Steve Hollingworth, gyda mewnbwn ychwanegol gan y prif siaradwyr. Y cyfrifoldeb am y barnau a fynegir yn yr Adroddiad hwn yw rhai Academi Heddwch Cymru a Steve Hollingworth yn unig.

# Ynghylch Academi Heddwch Cymru

Academi Heddwch Cymru yw sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru, a'r sefydliad cyntaf o'i bath ym mhedair cenedl y Deyrnas Gyfunol. Mae'n perthyn i deulu bydeang o sefydliadau heddwch sy'n tynnu ynghyd arbenigedd gan anelu at yr un nod o ymateb i heriau byd-eang drwy ddulliau sy wedi'u gwreiddio mewn heddwch.

Nod Academi Heddwch yw parhau a thraddodiad hirsefydlog Cymru o greu heddwch a hyrwyddo heddwch drwy ddatblygu a chydlynu cymuned annibynnol o ymchwilwyr mewn meysydd cysylltiedig. Er mai sefydliad annibynnol ydyw, cyllidir Academi Heddwch gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio er mwyn gosod heddwch yn gadarn ar agenda genedlaethol Cymru, yn ogystal ag ar y llwyfan ryngwladol.

Nodau Academi Heddwch yw sicrhau:

- Bod Cymru yn gwneud cyfraniad a gydnabyddir yn rhyngwladol at ymchwil ac arfer heddwch.
- Bod ffocws ar heddwch i'w weld ym mholisiau a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Bod y cyhoedd yn chwarae rhan fawr mewn ymchwil ac arfer heddwch yng Nghymru.

Sefydlwyd Academi Heddwch yn 2020. Cynghrair ydyw o'r 9 Prifysgol yng Nghymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Fe'i cefnogir hefyd gan gynrychiolwyr o'r mudiad heddwch yng Nghymru, Race Council Cymru, Urdd Gobaith Cymru, y Rotari Rhyngwladol, a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.



# 1. Cyflwyniad

Sifiliaid, bron bob amser, yw prif ddioddefwyr gwrthdaro. Mae eu dioddefaint nid yn unig yn nhermau niwed corfforol, gan gynnwys y posibilrwydd o farwolaeth, ond yn nhermau trawma meddyliol a cholled sylweddol. Mae'r patrwm hwn o ddioddefaint sifil yn cael ei ailadrodd heddiw mewn achosion o wrthdaro arfog yn Israel / Gaza, Sudan, Wcráin, Myanmar ac mewn sawl achos arall o wrthdaro ar draws y byd. Mae rhwymedigaeth foesegol i ddigolledu sifiliaid am y niwed a wneir iddynt. Mae yna hefyd gorff esblygol o gyfraith a chanllawiau dyngarol rhyngwladol ynghylch hawliau sifil mewn gwrthdaro, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sifiliaid gael iawndal pan fydd yr hawliau hynny'n cael eu torri. Mae gan iawndal fudd gwleidyddol hefyd - trwy fynd i'r afael â chwynion sy'n deillio o wrthdaro ac wrth helpu i adfer ymdeimlad o gyfiawnder ar ôl gwrthdaro, mae'n galluogi cymdeithasau i adeiladu heddwch cynaliadwy.

Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, ni roddir iawndal i sifiliaid y mae gwrthdaro arfog yn effeithio arnynt; a phan fydd yn cael ei roi, yn aml, mae'n cael ei weithredu'n wael. Mae ymagwedd ad hoc ar draws y byd at y mater o iawndal yn ffactor sy'n cyfrannu at gylch parhaus o gwynion a thrais. Mae'r methiant hwn yn helpu i rwystro cymodi ac ymdeimlad o gyfiawnder.

Yn anffodus, mae cost rhyfela fel arfer yn anferth o'i gymharu â'r buddsoddiadau mewn cymorth dyngarol, ailadeiladu ac iawndal i sifiliaid.Mae'r hafaliad hwn yn gweithredu i barhau â chyflwr o wrthdaro.

Mae angen dybryd i newid dulliau iawndal cenedlaethol a rhyngwladol i iawndal, nid yn unig i ddarparu cyfiawnder i'r rhai sydd wedi dioddef, ond i helpu i gadarnhau hawliau amddiffyn unigolion yn ystod gwrthdaro arfog. Mae angen i'r gymuned ryngwladol weld sifiliaid yn cael eu heffeithio gan wrthdaro arfog fel cynhalwyr hawliau. Dylai hyn fod yn sail i'r ymdrechion i alluogi cymdeithasau i symud ymlaen oddi wrth wrthdaro ac adeiladu heddwch. Mae'n gofyn am gamau i ddatblygu adroddiadau a data mwy tryloyw, fframwaith deddfau cyson, a safonau ar gyfer beirniadu a dyfarnu.

# 2. Cyflwr o Ddryswch: Ydy Iawndal yn ynghylch Rhwymedigaethau neu Hawliau?

'Mae'n rheol sylfaenol mewn cyfraith ryngwladol y dylid gwneud iawn am dorri cyfraith ryngwladol'.[1]

Yn draddodiadol, mae'r sail gyfreithiol ar gyfer iawndal sifil mewn rhyfel wedi'i leoli o fewn Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol (IHL). Mae Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol yn gwahaniaethu rhwng sifiliaid ac ymladdwyr mewn gwrthdaro, yn hyrwyddo'r egwyddor o gymesuredd er mwyn lleihau niwed, ac yn ymrwymo i safonau ymddygiad yn ystod ac ar ôl gwrthdaro. Mae Rheol 150 Deddf Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol Arferol Pwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch (ICRC) o arwyddocâd arbennig, sy'n nodi bod 'Gwladwriaeth sy'n gyfrifol am dorri cyfraith ddyngarol ryngwladol yn gorfod gwneud iawn yn llawn am y golled neu'r anaf a achoswyd.'[2] I bob pwrpas, mae Rheol 150 yn gosod rhwymedigaeth ar actorion gwladwriaethau ac actorion anwladwriaethol i ddigolledu sifiliaid.

Fodd bynnag, mae'r 'rhwymedigaeth' hwn wedi profi i fod yn fesur annigonol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion a hawliau sifiliaid y mae gwrthdaro arfog yn effeithio arnynt. Y broblem hanfodol yw bod Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol wedi canolbwyntio'n bennaf ar rwymedigaethau gwladwriaethau i naill ai fynd ar drywydd iawndal neu ddarparu iawndal, yn hytrach na hawliau unigolion yr effeithir gan wrthdaro.

Yn 2005, serch hynny, pasiodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Benderfyniad ynghylch yr 'hawl sylfaenol' i dalu iawndal i ddioddefwr yng nghyd-destun 'torri aruthrol ar Gyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol a thorri Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol (IHL) yn ddifrifol.'[3] Mae hon yn ymdrech bwysig i fframio'r mater trwy safbwynt hawliau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r Penderfyniad hwn yn canolbwyntio'n gul ar dorri'r Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol, lle nad oes gan sifiliaid lawer o hawliau, ac mae cyrff cenedlaethol a rhyngwladol wedi ei ddehongli a'i feirniadu'n wahanol - gyda rhai llwyddiannau diddorol ond ychydig neu ddim gweithredu yn bennaf. Mae iawndal, pan gaiff ei dalu, yn aml yn cael ei drin fel taliad cydymdeimlo yn hytrach na hawl.

[1] ICRC International Humanitarian Law Database Rule 150: Reparations, ar gael yn: https://ihl-databases.icrc.org/en/customary-ihl/v1/rule150, mynediad diwethaf, 27 Awst 2024.
[2] ICRC International Humanitarian Law Database Rule 150: Reparations, ar gael yn: https://ihl-databases.icrc.org/en/customary-ihl/v1/rule150, mynediad diwethaf, 27 Awst 2024.
[3] UN General Assembly Resolution 60/147, Basic Principles and Guidelines on the Right to a Remedy and Reparation for Victims of Gross Violations of International Human Rights Law and Serious Violations of International Humanitarian Law, ar gael yn https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/basic-principles-and-guidelines-right-remedyand-reparation, mynediad diwethaf, 27 Awst 2024.

Mae sifiliaid yn gorfod dygymod a chasgliad o ddeddfau rhyngwladol dryslyd ac anghyson cymhleth, a dyfarnu a gweithredu ad hoc, nad ydynt yn mynd ymhell o gwbl wrth fynd i'r afael ag anghenion a hawliau'r sifiliaid y mae gwrthdaro arfog yn effeithio arnynt mewn ychydig o gyd-destunau.

Mae'r mater o iawndal yn cael ei wneud yn anoddach hefyd oherwydd diffyg prosesau gorfodi effeithiol a 'chalcwlws niwed' - hynny yw, safonau a dderbynnir yn fyd-eang ar gyfer iawndal. Mae cymhlethdodau pellach yn deillio o faterion penodol, fel y rhai sy'n ymwneud â gwrthdaro arfog gan actorion sydd ddim yn rhan o wladwriaeth, a rhai dioddefwyr a statws deuol (fel milwyr sy'n blant). Er bod rhai darpariaethau ar gyfer iawndal felly yn bodoli mewn cyfraith ryngwladol, ac er bod momentwm wedi bod yn symud tuag at hawliau unigolion i iawndal, mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i iawndal sifil yn parhau i fod yn ddiffygiol. Mae angen dybryd am adeiladu ar y Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol bresennol, fel bod iawndal yn cael ei ystyried yn hawl i unigolion ac yn cael ei gyfrifo'n iawn a'i orfodi ar lefel ryngwladol. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel y dywedodd yr Athro Luke Moffat yn ein gweminar: 'Mae hawliau yn gysylltiedig â rhwymedïau, ac os nad oes gennym ni atebion effeithiol, yna mae hawliau'n cael eu chwalu.'

# 3. Y Dimensiwn Gwleidyddol: Yr Angen am Adeiladu Consensws

AAnhawster allweddol yn y system iawndal yw problem gorfodaeth oherwydd diffyg ewyllys wleidyddol. Fel y dywedodd yr Athro Mohammed Abu Nimer yn ein gweminar: 'Mae unrhyw benderfyniad cyfreithiol neu ymarferol ynghylch gwneud yn iawn yn gofyn am benderfyniad gwleidyddol, (ac) ymrwymiad moesol a moesegol ar ran yr holl bartïon dan sylw.'

Gall rhywfaint o'r anhawster hwn fod o ganlyniad i gymunedol ryngwladol ranedig. Nid yw hyd yn oed goresgyniad digywilydd gan un wladwriaeth ar un arall o reidrwydd yn ddigonol i uno'r gymuned ryngwladol mewn condemniad. Heb undod yn y gymuned ryngwladol, mae'n dod yn fwy anodd creu'r ewyllys wleidyddol i orfodi iawndal.

Fodd bynnag, mae'r diffyg ewyllys wleidyddol hefyd oherwydd y naratif ynghylch iawndal - ei fod yn rhy anodd, yn rhy ddrud ac y gallai niweidio'r rhagolygon am gyflawni cadoediad os yw iawndal sylweddol yn ganlyniad.

Fel y dangosodd Mojtaba Kazazi yn ein gweminar, fodd bynnag, mae'n bosibl dyfeisio a gweithredu proses effeithiol i ddigolledu sifiliaid, ond bydd costau ariannol iawndal bron bod amser yn anferth o'u cymharu â chostau paratoi ar gyfer rhyfel a mynd i ryfel.
Yr hyn sy'n ofynnol wedyn yw newid yn y naratif fel bod iawndal yn cael ei ystyried yn normal yn hytrach nag eithriadol, yn bosibl yn hytrach nag yn anodd, a bod taleithiau yn canolbwyntio cymaint ar ariannu'r amodau heddwch ag y maent ar y gallu i gynnal rhyfel. Un o'r dulliau allweddol o symud y naratif yw pwysleisio manteision iawndal i adeiladu heddwch cynaliadwy. Yn benodol, gall sefydlu ymdeimlad o gyfiawnder helpu i ddileu erledigaeth a darparu llwybr at gymod. Fel y dywedodd yr athro Mohammed Abu Nimer yn ein gweminar: 'Nid yw gwneud iawn yn ymwneud â dial. I'r gwrthwyneb yn llwyr. Mae'n ymwneud ag ailadeiladu perthynas. Mae'n ymwneud ag ailadeiladu bywyd dynol.'

# 4. 3.Beth sydd angen cael ei wneud?

Mae iawndal i sifiliaid y mae gwrthdaro arfog yn effeithio arnynt yn bwysig, nid yn unig am resymau cyfiawnder, ond (efallai yn bwysicach), er mwyn adeiladu heddwch cynaliadwy. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith ryngwladol na'r ewyllys wleidyddol yn ddigonol i ateb yr angen hwn. Felly, mae'n rhaid i'r ddau weithredu i adeiladu'r amddiffyniadau sydd yn cael eu darparu gan gyfraith ryngwladol, ac i newid y naratif gwleidyddol.

Gellir gwella'r amddiffyniadau sydd yn cael eu cynnig gan gyfraith ryngwladol ac yn enwedig, gan y Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol, mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Dyrchafu'r iawndal fel hawl i unigolion yn hytrach na rhwymedigaeth gan wladwriaethau drwy gyfraith ryngwladol a hawliau dynol rhyngwladol, a thrwy hynny, helpu i greu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.
- Dyrchafu'r Rheol 150 i lefel hawl ddynol orfodadwy drwy lobïo'r Cenhedloedd Unedig a Phwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch.
- Sefydlu panel sefydlog o arbenigwyr i wella'r cymorth ar gyfer ymgyfreitha yn y tri llys hawliau dynol rhyngwladol.
- Ehangu awdurdodaeth yr hawl i iawndal y tu hwnt i'r llysoedd rhyngwladol presennol, i gynnwys yr holl genhedloedd ac actorion mewn gwrthdaro.
- Cefnogi gwladwriaethau i ddatblygu deddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr, drwy ddarparu arbenigedd cyfreithiol neu dechnegol iddynt.
- Sefydlu iaith gyffredin a meincnodi safonau ar gyfer iawndal sy'n sensitif i gyd-destun lleol.



Fodd bynnag, fel y dywedodd yr Athro Luke Moffett: 'Nid yw mwy o gyfraith yn mynd i'n hachub.' Bydd gorfodi cyfraith ryngwladol yn gofyn am newid normadol, fel y bydd iawndal sifil yn ganlyniad naturiol i wrthdaro arfog, ynghyd â'r ewyllys gwleidyddol i'w gorfodi.

Bydd creu'r amodau hyn yn golygu cynyddu amlygrwydd iawndal fel mater mewn gwrthdaro arfog, datblygu momentwm a Sylfaen cefnogaeth i sefydlu hyn fel norm rhyngwladol, a newid y naratif i un o bosibilrwydd a disgwyliad. Mae mentrau ymarferol, cymharol isel (yn enwedig o'u cymharu â gwariant ar baratoi ar gyfer rhyfel) a fydd yn helpu i ddatblygu momentwm i newid y naratif yn cynnwys:

- Gwella rhannu profiadau i feithrin hygrededd y prosesau iawndal trwy sefydlu canolfan ryngwladol, neu uned mewn canolfan ryngwladol sefydledig.
- Gwella'r broses casglu data ar golledion sifil - yn rhai dynol a materol - i'w wneud gan gorff sydd â statws a hygrededd rhyngwladol.
- Adnabod a chydnabod sefydliadau ac unigolion am eu gwaith yn y maes hwn, a thrwy hynny, rhoi mwy o statws a hygrededd iddynt.
- Gwella ein dealltwriaeth o iawndal sifil trwy gefnogi a/neu sefydlu cyfarfodydd neu baneli blynyddol mewn cynadleddau, ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol.
- Datblygu sgiliau ac arbenigedd, trwy gynnwys astudio iawndal sifil mewn cyrsiau prifysgol a dulliau hyfforddi eraill, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar adeiladu heddwch a datrys gwrthdaro.

# 5.Cyfle i Gymru?

Yn ei Strategaeth Ryngwladol i Gymru 2020, nododd Llywodraeth Cymru set o uchelgeisiau craidd. Roedd y rhain yn cynnwys codi proffil Cymru yn rhyngwladol, a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. [4]

Mae gan Gymru gyfle i fod yn ddinesydd rhyngwladol rhagweithiol da, drwy gymryd rôl arwain mewn ymgyrch i godi amlygrwydd iawndal sifil mewn gwrthdaro arfog.Byddai hyn yn helpu i godi proffil rhyngwladol Cymru, a datblygu hunaniaeth unigryw ar lwyfan y byd - yn debyg iawn i'r hynny mae'r cenhedloedd Nordig wedi'i gyflawni mewn perthynas ag adeiladu heddwch.

---

[4] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Ryngwladol i Gymru (2020), ar gael yn https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/international-strategy-for-wales-v1.pdf mynediad diwethaf 30 Awst 2024.

Yn ei Rhagair i Strategaeth Ryngwladol 2020 Llywodraeth Cymru, ysgrifennodd y nawr Brif Weinidog, Eluned Morgan AS, 'Gydag adnoddau cyfyngedig, mae angen i ni ganolbwyntio ar feysydd penodol o uchelgais.'[5] Gall buddsoddiadau cymharol fach i ddatblygu momentwm wrth godi proffil sifil arwain at enillion sylweddol. Gallai mentrau penodol gynnwys:

- Cynnal cynhadledd ryngwladol flynyddol ar iawndal sifil mewn gwrthdaro arfog. Efallai y bydd hyn nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â materion penodol, ond y byddai hefyd, yn codi proffil iawndal sifil a Chymru fel actor rhyngwladol.
- Gwobr flynyddol sy'n cydnabod gwaith unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio yn y maes
- Datblygu a hyrwyddo cyrsiau byr ym mhrifysgolion Cymru, i ddatblygu arbenigedd rhyngwladol, naill ai mewn person neu fel adnodd ar -lein.

Byddai sefydlu canolfan ryngwladol neu ystorfa ddata yn fenter ychydig yn fwy uchelgeisiol, a gellid ei hystyried fel ail gam mewn datblygu rhaglen. Yn benodol, mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru arbenigedd sy'n flaenllaw ar draws y byd o ran gwarchod a darparu mynediad at ddeunydd digidol, a gallai weithredu fel y sail i ystorfa ddata fyd-eang; ac yn nhermau sefydlu canolfan ryngwladol, mae gan Brifysgol Caerdydd arbenigedd rhagorol mewn cyfraith ryngwladol tra bod gan Brifysgol Aberystwyth gydnabyddiaeth fyd-eang fel yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf.

---

[5] Eluned Morgan, 'Rhagair', Strategaeth Ryngwladol i Gymru t.1.